**Jeff Cuthbert AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: WAQ67396

Simon Thomas AC
Simon.Thomas@wales.gov.uk

25 Gorffenaf 2014

Annwyl Simon,

Rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i hybu llais plant a phobl ifanc. Mae'r Grant Cyflenwi ar gyfer Plant a Theuluoedd yn cynnwys blaenoriaeth glir i roi cymorth penodol ar gyfer datblygu polisïau a strategaeth er lles plant, pobl ifanc ac i roi cyfleoedd systemig iddynt gael cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac i glywed eu lleisiau.

Gwnaeth y Ddraig Ffynci gais am y Grant Cyflenwi ar gyfer Plant a Theuluoedd o union yr un safle â mudiadau eraill yn y trydydd sector ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Rydym yn lwcus iawn yng Nghymru bod gennym gymaint o fudiadau sydd â hanes llwyddiannus a brwdfrydedd dros weithio gyda phlant a phobl ifanc ac o'u helpu i gyfranogi. Ar ôl proses ymgeisio deg ac agored, dyfarnwyd cais Plant yng Nghymru yn llwyddiannus a byddant yn rhoi'r flaenoriaeth ar weithio ar y cyd â Tros Gynnal Plant a Voices from Care. Byddan nhw'n creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc leisio'u barn ar bynciau pwysig ac i gysylltu â'r Llywodraeth yn ôl y gofyn. Byddan nhw'n creu mecanwaith genedlaethol i weithio gyda chymdeithasau ieuenctid lleol i'w helpu i sicrhau bod Gweinidogion a llunwyr polisïau'n clywed eu barn.

Rwy'n deall siom y Ddraig Ffynci am fethiant eu cais. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw reswm pam na all barhau; mae'n elusen gofrestredig ac nid oes dim i ddweud ei bod yn gorfod dibynnu ar arian Llywodraeth Cymru. Rydym wedi bod yn onest ac agored ar hyd y broses a dywedais wrth y Ddraig Ffynci ym mis Medi 2013 am fy mwriad i newid y trefniadau ariannu. Ers hynny, maen nhw wedi bod mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau ar y Grant newydd a hefyd wedi cael ymateb manwl i'w cais.

Mae cyllidebau Llywodraeth Cymru wedi cael eu torri ac rydym felly wedi gorfod rhoi blaenoriaeth i wasanaethau sy'n cyflenwi ac yn darparu gwasanaethau effeithiol. Ar ôl proses ymgeisio deg ac agored, rydym yn hyderus mai Plant yng Nghymru fydd yn gallu gwneud hynny orau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yr eiddoch yn gywir,

**Jeff Cuthbert AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty